

Cyngor Sir Ddinbych

Ymddrin â Choed – Canllaw i'r Cyhoedd

Mae'r crynodeb hwn yn rhoi arweiniad ynglŷn â sut y mae'r Cyngor yn rheoli ei goed a sut y bydd yn ymateb i'r ymholiadau mwyaf cyffredin. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gwerth hirdymor y mae coed yn ei ddarparu, felly gwneir penderfyniadau er budd y cyhoedd yn y tymor hir.

Mae'n ymddrin â **choed y Cyngor** a daw o ddogfen fewnol sy'n rhoi arweiniad i swyddogion. Gobeithir y bydd hyn hefyd yn helpu aelodau'r cyhoedd.

Nid yw cwynion neu ymholiadau am goed ar **eiddo preifat** yn gyfrifoldeb ar y Cyngor. Gweler yr adran '[Hawl Cyfraith Gyffredin](#)'.

Cysylltu: Os oes gennych gwestiwn am goed sy'n eiddo i'r Cyngor, i ddechrau cysylltwch â;

Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid Cyngor Sir Ddinbych ar 01824 706000 (dydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am tan 5.00pm)

Gorchmynion Diogelu Coed

Nod Gorchmynion Diogelu Coed (TPO) yw diogelu coed unigol neu grwpiau o goed. Mewn termau cyfreithiol, maent yn ei gwneud yn drosedd i dorri, difrigo, tocio, diwreiddio, difrodi neu ddifetha coeden yn fwriadol heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth a ffurflenni cais ar wefan Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych (CSDd). <https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/planning-and-building-regulations/planning/tree-preservation-orders.aspx>

Os ydych eisiau canfod a yw coeden wedi'i diogelu, defnyddiwch prif ddull mapio gwefan y Cyngor (gweler 'Fy Eiddo / Fy Mapiau').

<https://maps.denbighshire.gov.uk/MyDenbighshire.aspx>

1. Ymholiadau Coed

TP1: Pan gysylltir â'r Cyngor, a gofyn iddynt archwilio coeden, agwedd pwysicaf yr asesiad bob amser yw diogelwch.

2. Asesiad Risg Coed

Cyfrifoldebau'r Cyngor fel Tirfeddiannwr

TP2: Fel tirfeddiannwr, mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal i sicrhau, cyn belled ag sy'n ymarferol, bod yr holl goed ar ei dir yn cael eu cadw mewn cyflwr derbyniol a ddim yn arwain at risg afresymol i bobl ac eiddo.

3. Golau

TP3: Ni fydd y Cyngor yn tocio na thorri coed y Cyngor i wella'r golau naturiol i eiddo.

4. Cysgodi Panelau Solar

TP4: Ni fydd y Cyngor yn torri na thocio coed sy'n eiddo i'r Cyngor i ganiatáu ar gyfer gosod panelau solar yn effeithiol.

5. Niwsans Tymhorol

TP5: Ni fydd y Cyngor yn torri neu docio Coed sy'n eiddo i'r Cyngor er mwyn lliniaru problemau a achosir gan ffenomena naturiol a/neu dymhorol yn unig.

6. Signal teledu / lloeren

TP6: Ni fydd y Cyngor yn tocio neu dorri coed sy'n eiddo i'r Cyngor i atal ymyrraeth â gosod/signal teledu/lloeren.

7. Golygfa

TP7: Ni fydd y Cyngor yn tocio na thorri coed y Cyngor i wella'r olygfa o eiddo preifat.

8. Ffyrdd – Rhwystro Llinellau Gweld

TP8: Bydd y Cyngor yn gwneud gwaith i goed y Cyngor i gynnal llinellau gweld clir (lle bo'n ymarferol) ger cyffordd a manau eraill (sy'n gysylltiedig â stryd, ffordd neu briffordd).

9. Taldra

TP9: Bydd holl goed y Cyngor yn cael cyrraedd eu huchder a siâp naturiol oni bai eu bod yn risg sylweddol i iechyd a diogelwch.

10. Difrod i eiddo

TP10A: Ni fydd y Cyngor yn torri na thocio coed yr amheuir sy'n achosi difrod i anheddau neu wasanaethau heb dystiolaeth gadarn digonol.

TP10B: Ni fydd y Cyngor yn torri neu docio coed na thorri gwreiddiau coed sy'n achosi aflonyddwch i balmentydd, cyrbau, llwybrau gardd na waliau. Yn yr achosion hyn, ceisir atebion peirianeg.

Enghreifftiau o dystiolaeth gadarn yw adroddiadau Peiriannydd Strwythurol neu Syrfêwr Siartredig. Mewn rhai achosion, gall fod yn angenrheidiol i'r Cyngor gael barn ei Beiriannydd Strwythurol neu arbenigwr ei hun cyn gweithredu.

11. Draeniau

TP11: Ni fydd y Cyngor yn tocio, na thorri gwreiddiau coed y Cyngor i atal gwreiddiau rhag mynd i ddraen sydd eisoes wedi torri neu wedi'i ddifrodi.

12. Coed Peryglus

TP12A: Os yw'r Cyngor yn berchen ar goeden sydd mewn cyflwr sy'n achosi risg uchel uniongyrchol i bobl neu eiddo, bydd cyfarwyddiadau yn cael eu rhoi i gontractwr coed i wneud y goeden yn ddiogel cyn gynted â phosibl. Gall y Cyngor geisio adennill costau gan berchnogion y tir preifat lle mae gwaith coed wedi'u gwneud er lles diogelwch y cyhoedd.

TP12B: Os nodir bod coeden sy'n eiddo i'r Cyngor yn beryglus, ond nad yw'r risg i'r cyhoedd yn uchel, gwneir y goeden yn ddiogel yn dibynnu ar raddfa'r risg a nodwyd ar adeg yr archwiliad. Os

yw'n goeden breifat, rhoddir gwybod i'r perchnogion a gofyn iddynt wneud y goeden yn ddiogel o fewn cyfnod amser priodol. Mae gan y Cyngor bwerau dan Ddeddf Priffyrdd 1980 i sicrhau nad yw coed ar eiddo preifat yn achosi perygl ar ffordd gyfagos, a defnyddir y rhain fel bo'n briodol. Gall y Cyngor gymryd camau gorfodaeth neu wneud y gwaith a cheisio adennill costau os oes angen.

13. Coed ag Afiechyd a Phla

TP13: Bydd iechyd coed ag afiechydon yn cael eu monitro. Bydd pob coeden yn cael ei asesu yn unigol ac ystyrir torri coeden ag afiechyd fel yr ateb olaf.

14. Safonau Tocio

TP14: Bydd yr holl waith coed a wneir gan, neu ar ran y Cyngor, yn unol â'r arferion a nodwyd yn y Safonau a Chanllawiau Coedyddiaeth Prydeinig ac Ewropeaidd. Bydd coed ond yn cael eu tocio os credir eu bod yn beryglus, yn rhwystr i gerbydau neu gerddwyr, yn cyffwrdd eiddo neu angen ymyrraeth i bwrpasau coedyddiaeth.

15. Coed a Rhwystrau Llwybr Troed / Palmant

TP15A: Bydd y Cyngor yn gwneud gwaith i goed dan berchnogaeth y Cyngor neu goed a reolir gan y Cyngor i sicrhau o leiaf 2.5 metr o le dros lwybr troed sy'n gysylltiedig â stryd, priffordd neu ffordd, a 3 metr pan fo hawl i feicio. Ystyrir unrhyw waith sy'n angenrheidiol i atal y rhwystr ar led llwybr troed sy'n gysylltiedig â'r briffordd oherwydd presenoldeb coed sy'n eiddo i'r Cyngor fesul achos.

TP15B: Ni fydd y Cyngor yn tynnu na thorri gwreiddiau'r goeden sy'n achosi i'r palmant godi. Yn yr achosion hyn, ceisir atebion peirianeg.

16. Diogelu/Bioamrywiaeth Bywyd Gwyllt

TP16: Mae gan y Cyngor amryw o gyfrifoldebau dan Gyfraith Prydeinig ac Ewropeaidd i ddiogelu bywyd gwyllt a gwella bioamrywiaeth. Cyn gwneud gwaith i goed neu wrychoedd, bydd y Cyngor yn sicrhau nad yw'n achosi unrhyw aflonyddwch nac unrhyw effaith negyddol arall.

17. Eiddew

TP17: Ni fydd y Cyngor yn torri na thocio eiddew o goed y Cyngor

18. Llinellau Pŵer a Llinellau Ffôn

TP18: Bydd y Cyngor yn cysylltu â'r Cwmnïau Gwasanaethau perthnasol os yw coeden y Cyngor yn ymyrryd â llinellau uwch ben. Gellir rhoi gwybod am y broblem i'r cwmni perthnasol trwy ddilyn y dolennau hyn;

Llinellau Pŵer

<https://www.ukpowernetworks.co.uk/internet/en/our-services/report-trees/>

https://www.spenergynetworks.co.uk/pages/contact_us.aspx

Rhif Ffôn

<https://www.openreach.co.uk/org/home/contactus/tellussomething/tellus.do>

Coed ar Eiddo Preifat - Hawliau Cyfraith Gyffredin

Os yw coeden yn llechfeddiannu ar eich eiddo, mae gennych hawl Cyfraith Gyffredin i ddileu (lliniaru) y niwsans. Fodd bynnag;

Gallwch ond ystyried symud y rhannau hynny o'r goeden o'r pwynt lle byddant yn croesi terfyn eich eiddo;

Fe'ch cynghorir yn gryf i drafod gyda'ch cymydog eich bwriad i docio canghennau sy'n llechfeddiannu.

Fe'ch cynghorir yn gryf i ymgynghori â gweithiwr coed proffesiynol i gael canllawiau ynglŷn â'r ffordd orau o docio coed sy'n llechfeddiannu;

Dylech geisio canfod a yw'r goeden yn eiddo i'r Cyngor ac a ydynt wedi'u diogelu gan Orchymyn Diogelu Coed neu a ydynt o fewn Ardal Gadwraeth.

<https://www.trees.org.uk/Trees.org.uk/media/Trees-org.uk/Documents/GuideToTreesAndTheLaw-Web.pdf>

Gwybodaeth Bellach

I gael gwybodaeth am **orchmynion diogelu coed, gwrychoedd uchel ac ardaloedd cadwraeth**, dilynwch y dolenni cyswllt isod ar wefan CSDd;

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/planning-and-building-regulations/planning/tree-preservation-orders.aspx>

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/planning-and-building-regulations/conservation-areas/conservations-areas-landing-page.aspx>

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/planning-and-building-regulations/planning/tpo-pdfs/high-hedges-2018.pdf>

<http://www.denbighdp.co.uk/Webfiles/SPG/trees%20ENG.pdf>

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan10/?lang=en>

I gael cymorth gyda **chyngor bioamrywiaeth**:

<https://www.denbighshire.gov.uk/en/resident/planning-and-building-regulations/planning/biodiversity.aspx>